



**GWASANAETH CYNLLUNIO AT
ARGYFWNG RHANBARTHOL**
CYNGHORAU Gogledd Cymru
**NORTH WALES COUNCILS
REGIONAL EMERGENCY
PLANNING SERVICE**

Canllaw Cynllun Argyfwng Cymunedol

Fersiwn Prawf

CYNNWYS

Ymwadiad	2
Cyflwyniad	
Nôd	3
Amcanion	3
Tîm Ymateb	4
Yswiriant ac Iechyd a	5
Darparu Nawdd ac	5
Cynnal a Chadw'r	5
Taflen Gofnod	5
Briff Wedi'r Digwyddiad	5
Datblygu	5
Atodiad A Templed Cynllun Argyfwng	

Ymwadiad

Lluniwyd y templed hwn gan Wasanaeth Cynllunio Rhag Argyfwng Rhanbarthol - Cynghorau Gogledd Cymru (GCAR- CGC) i gynorthwyo cymunedau i baratoi ar gyfer argyfwng o fewn eu cymunedau. Ni fydd yr Awdurdodau Lleol yn gyfrifol am unrhyw ddifrod, colled neu anaf i berson/ au neu eiddo o ganlyniad i' r templed hwn.

Cyflwyniad

Bydd yn rhaid i ymatebwyr lleol i argyfwng bob amser flaenoriaethu' r rhai sydd â' r angen mwyaf yn ystod argyfwng, gan ganolbwyntio eu hymdrechion ar le mae bywyd mewn perygl. Bydd adegau pan fydd unigolion a chymunedau yn cael eu heffeithio gan argyfwng ond nid ydynt mewn perygl uniongyrchol a bydd ganddynt yr adnoddau a / neu alluoedd i edrych ar ôl eu hunain a' i gilydd am gyfnod hyd nes y gellir darparu' r cymorth allanol angenrheidiol.

Ni ddisgwylir bod y cyhoedd yn cymryd risgiau diangen yn ystod argyfwng.

Yn y DU o dan Ddeddf Argyfyngau Sifil 2004 caiff argyfwng ei ddiffinio fel: "Digwyddiad neu sefyllfa gydag amrediad o ganlyniadau y mae angen i un neu ragor o asiantaethau sy' n ymateb i argyfwng wneud trefniadau arbennig ar eu cyfer."

Er nad oes cyfrifoldeb statudol ar gymunedau i gynllunio ar gyfer argyfyngau, ymateb iddynt, neu hwyluso adferiad ohonynt, mae' n arfer da i nodi peryglon a gwneud cynlluniau syml ar sut y gallent ymateb iddynt. Mae Gwasanaeth Cynllunio rhag Argyfwng Rhanbarthol Cynghorau Gogledd Cymru (GCAR-CGC) felly wedi llunio templed Cynllun Argyfwng Cymunedol (Atodiad A).

Mae' r cysyniad Tîm Ymateb Cymunedol (TYC) (gweler Tudalen 3) wedi ei ffurfio i gynorthwyo gyda dechrau' r Cynllun Argyfwng Cymunedol (CAC) ac i gynorthwyo' r gwasanaethau brys lle bynnag y bo modd, cyn, yn ystod ac ar ôl digwyddiad argyfwng.

Nôd

Nôd y canllawiau hyn yw rhoi arweiniad i gymunedau drwy' r templed i alluogi datblygu dull cadarn cydlynol i ddigwyddiad sy' n ategu cynlluniau' r asiantaethau sy' n ymateb.

Amcanion

- Nodi' r peryglon sydd fwyaf tebygol o effeithio ar y gymuned yn unol â Chofrestr Risg Cymunedol Gogledd Cymru <http://www.nwlr.org.uk>
- Nodi camau perthnasol i liniaru ac ymateb i sefyllfaoedd o argyfwng, gan gynnwys rhybuddio' r gymuned yn ôl yr angen.
- Nodi pobl/ grwpiau/ sefydliadau bregus yn y gymuned.
- Nodi adnoddau cymunedol sydd ar gael i gynorthwyo yn ystod argyfwng

- Darparu manylion cyswllt allweddol ar gyfer y Tîm Ymateb Cymunedol, Adnoddau Cymunedol Allweddol, yr Asiantaethau Ymateb ac Awdurdodau Lleol.
- Darparu gwybodaeth a chymorth i'r Gwasanaethau Brys pan maent yn cyrraedd ac fel y bo'n briodol drwy gydol yr argyfwng.

Tîm Ymateb Cymunedol

Dylid sefydlu Tîm Ymateb Cymunedol (TYC) cyn argyfwng er mwyn cynllunio ymlaen llaw ar gyfer ymateb y gymuned i argyfwng, a' i gydlynu. Mae' r TYC yn cynnwys gwirfoddolwyr penodol o' r gymuned sy' n barod i gymryd rhan yn y prosesau cynllunio ac ymateb i argyfwng. Mae angen ystyried pa dasgau y dylid eu dirprwyo i aelodau' r tîm fel y bo' n briodol.

Rôl y TYC:

Cyn digwyddiad

- Datblygu' r Cynllun Argyfwng Cymunedol (Atodiad A)
- Sicrhau bod y cynllun yn cael ei adolygu a' i ddiweddarau' n barhaus
- Adrodd yn flynyddol i' r gymuned gan fanylu os yw' r cynllun wedi' i weithredu ac amlygu unrhyw newidiadau o ran aelodau' r TYC

Yn ystod ac ar ôl digwyddiad

- Gweithredu fel canolbwynt ar gyfer y gymuned yn yr ymateb i argyfwng
- Sicrhau bod yr awdurdodau priodol ac unigolion yn cael eu hysbysu
- Cyfathrebu negeseuon pwysig i' r gymuned
- Dirprwyo rolau penodol i eraill ar y TYC
- Gweithredu adnoddau fel bo' r angen
- Gweithredu fel y prif bwynt cyswllt cymunedol ar gyfer y Gwasanaeth Cynllunio Rhag Argyfwng Rhanbarthol Cyngorau Gogledd Cymru (GCAR-CGC) a' r Gwasanaethau Brys, cyn, yn ystod ac ar ôl argyfwng i sicrhau bod cyfathrebu dwy ffordd yn cael ei gynnal

Dylai holl aelodau' r Tîm Ymateb Cymunedol:

- Fyw yn y gymuned
- Meddu ar wybodaeth leol dda
- Gallu deffro cefnogaeth y gymuned a siarad ar ran y gymuned
- Sicrhau y darperir ar gyfer y bregus gyda sicrwydd ychwanegol yn ystod argyfwng
- Sicrhau fod sianelau cyfathrebu yn cael eu cynnal o fewn y gymuned a' r Awdurdod Lleol
- Sicrhau bod cyfrinachedd yn cael ei gynnal lle bo angen

- Cadw eich cofnod gweithredu eich hun mewn achos o argyfwng
- Creu 'bag argyfwng' sy'n cynnwys y cynllun ac unrhyw ddiplod / offer priodol a all fod yn ofynnol
- Meddu ar wybodaeth ddigonol o'r cynllun i weithredu fel Arweinydd Tîm Ymateb Cymunedol yn eu habsenoldeb
- Cefnogi'r Arweinydd Tîm Ymateb Cymunedol i wneud eu gwaith

Yswiriant ac Iechyd a Diogelwch

Wrth feddwl am sut y gall aelodau' r gymuned helpu, a' r asedau a' r adnoddau sydd eu hangen, mae angen ystyried materion yswiriant.

Mae llawer o gymunedau yn gweld yswiriant ac atebolrwydd fel rhwystr i baratoi eu cymuned ar gyfer argyfyngau. Mae angen ymagwedd synnwyr cyffredin tuag at helpu ei gilydd.

Peidiwch â rhoi eich hun neu eraill mewn perygl wrth baratoi neu ddefnyddio

eich cynllun. Am fwy o wybodaeth yngly n â materion yswiriant, cyfeiriwch at

www.abi.org.uk.

Darparu Nawdd ac Adnoddau

- Mae canllawiau ar sut i gael mynediad at opsiynau ariannu posibl yn cael ei ddarparu o fewn dogfen y llywodraeth Paratoi ar gyfer Argyfyngau - Canllaw ar gyfer Cymunedau.
- Nid oes angen i gymunedau fuddsoddi symiau sylweddol o arian i ddod yn barod e.e. mae rhai cymunedau gwledig wedi gwario llai na £200 yn caffael offer ar gyfer bocs argyfwng cymunedol.
- Holwch os byddai busnes lleol yn fodlon darparu nawdd neu gymorth ar ryw ffurf.
- Mae' r buddsoddiad gwerthfawr yn y broses hon yn dod o' r amser a roddir gan aelodau o' r gymuned i ystyried y ffordd orau i baratoi eu hunain.

Cynnal a Chadw' r Cynllun

Dylai' r TYC gyfarfod i drafod trefniadau gwytnwch y gymuned o leiaf bob chwe mis.

Dylid cynnal adolygiad llawn o' r cynllun gan y TYC yn flynyddol i sicrhau bod y rhifau cyswllt yn dal i fod yn gywir.

Taflen Gofnod

Mae' n bwysig cofnodi' r holl benderfyniadau a champau a gymerwyd yn ystod argyfwng. Mae llenwi taflen gofnod (gweler Tudalen 23 yn y templed Cynllun Argyfwng Cymunedol) yn ffordd hawdd i sicrhau nad yw gwybodaeth yn cael ei golli. Gall hefyd helpu i gefnogi / cyfiawnhau unrhyw benderfyniadau a wnaed neu gamau a gymerwyd mewn achos o ymchwiliad.

Brîff Wedi' r Digwyddiad

Mae' n bwysig adrodd yn ôl ar ôl digwyddiad i nodi unrhyw wersi i' w dysgu ac arfer da i' w rhoi mewn adolygiadau o' r cynllun yn y dyfodol. (Gweler Tudalen 24 yn y templed Cynllun Argyfwng Cymunedol)

Datblygu Cynllun

Gall llunio Cynllun Argyfwng Cymunedol ymddangos yn dasg anodd ond mae GCAR-CGC wrth law i helpu. Cysylltwch â ni ar [ymholiadau@gcar-cgc.org.uk](mailto:yholiadau@gcar-cgc.org.uk) os oes arnoch angen unrhyw gymorth gyda datblygu eich cynllun.

Atodiad A



Cynllun Argyfwng Cymunedol

Cymuned /
Sir:
Cefnogwr
Dyddiad



Cynnwys

Cofnod o Newidiadau	3
Rhestr Newidiadau	3
Hyfforddiant a Phrofiad	3
Rhestr ddosbarthu	4
Tîm Ymateb Cymunedol	5
Ffurflen Manylion Aelod Tîm Ymateb Cymunedol	6
Rhaeadr Cyfathrebu Coeden Deleffon	7
Lleoliadau a nodwyd ymlaen llaw	8
Bocs Argyfwng	8
Proffil Cymunedol	9
Map o'r Ardal sy'n dod o dan y Cynllun Argyfwng Cymunedol hwn	9
Poblogaeth	9
Llwybrau Mynediad Allweddol Cymunedol (gan gynnwys prif bontydd)	9
Prif Afonydd o fewn yr ardal	9
Nentydd o fewn yr ardal	9
Rhwydweithiau Ffôn Symudol sydd ar gael yn y Gymuned	9
Radio Lleol	10
Dulliau ar gyfer Rhybuddio a Hysbysu eich Cymuned	10
Cysylltiadau Cymunedau Cyfagos	11
Adnoddau Cymunedol	12
Adnoddau Lleol	12
Gwirfoddolwyr mewn Argyfwng	13
Sefydliadau Bregus	14
Unigolion Bregus	14
Risgiau i'r Gymuned	15-16
Canolfan Orffwys	17-18
Rhestr Wirio Canolfan Orffwys	19
Manylion cyswllt/ Sefydliadau defnyddiol	20
Rhestr Wirio Camau Brys	21
Rhaglen Cyfarfod Cyntaf y Tîm Ymateb Cymunedol	22
Taflen Gofnod	23
Ffurflen Friffio Wedi'r Digwyddiad	24-25

Cofnod o Newidiadau

Mae' n hanfodol eich bod yn adolygu ac ymarfer eich cynllun argyfwng yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn gyfredol ac yn addas i' r diben. Sicrhewch fod unrhyw newidiadau' n cael eu cofnodi yma.

Rhestr Newidiadau

Dyddiad	Manylion y Newid	Enw

Hyfforddiant a Phrofiad

Dyddiad	Crynodeb Hyfforddiant/ Ymarfer	Enw

Rhestr ddosbarthu

Enw	Cyfeiriad	Manylion Cyswllt	Cyhoeddwyd ar

Tîm Ymateb Cymunedol

Dylid sefydlu Tîm Ymateb Cymunedol (TYC) cyn argyfwng er mwyn cynllunio ymlaen llaw ar gyfer ymateb y gymuned i argyfwng, a' i gydlynu.

Maent hefyd yn gyfrifol am ddiweddarau' r cynllun.

Rôl	Enw	Ffôn	Symudol	Cyfeiriad
Arweinydd Tîm Ymateb Cymunedol				
Dirprwy				
Aelod Tîm				
Aelod Tîm				
Aelod Tîm				

Ffurflen Manylion Aelod Tîm Ymateb Cymunedol

Darparwch eich manylion cyswllt i' w cynnwys yn y Cynllun Argyfyngau Cymunedol fel Aelod Tîm Ymateb Cymunedol:-

Enw	
Cyfeiriad	
Rhif Ffôn	
Ffôn symudol:	
Unrhyw wybodaeth berthnasol arall	

Rwy' n deall y bydd fy nata personol yn cael ei gadw gan Gyngor Cymuned / Tref XXXXXXXXXX o fewn copïau o' r Cynllun Argyfwng Cymunedol a gedwir gan aelodau o' r Tîm Ymateb Cymunedol a chan Wasanaeth Cynllunio Rhag Argyfwng Rhanbarthol Cyngorau Gogledd Cymru ac y bydd dim ond cael ei ddefnyddio mewn achos o sefyllfa o argyfwng ar gyfer dibenion ymateb i' r argyfwng hwnnw a / neu mewn unrhyw gynllunio rhag argyfwng yn y dyfodol. Bydd Cyngor Tref / Cymuned XXXXXXXXXX yn prosesu eich data am yr amser rydych yn aelod o' r Tîm Ymateb Cymunedol yn unig.

Mae gennych hawl i gael copi o' r wybodaeth sydd gennym amdanoch. Efallai y byddwch hefyd am ofyn i ni dynnu neu gywiro unrhyw ddata anghywir. Am wybodaeth bellach ar sut mae' r Awdurdod Lleol yn defnyddio eich data a' ch hawliau unigol, cysylltwch â ni:-

E-bost – [ymholiadau@gcar-cgc.org.uk](mailto:yholiadau@gcar-cgc.org.uk)


Ffôn - 01352 702124

Llofnodwyd	
Dyddiad	

Rhaeadr Cyfathrebu Coeden Deleffon

Mae' r goeden deleffon yn gweithio fel pyramid gyda' r Arweinydd Tîm Ymateb Cymunedol ar y top gan wneud yr alwad gyntaf i ddau neu fwy o bobl. Yn eu tro, gallant alw set benodedig o bobl ac ati, nes bo' r goeden yn gyflawn.

Enghraifft:



Lleoliadau a nodwyd ymlaen llaw

Mae’ r gymuned wedi nodi’ r lleoliadau canlynol fel eu man cyfarfod:

Pwyntiau Rheoli Digwyddiad

Y prif leoliad fydd:	
Yr ail leoliad fydd:	

Ar ôl i’ r gwasanaethau brys gyrraedd y digwyddiad, dylai’ r Arweinydd TYC gyflwyno ei hun i’ r gwasanaethau brys a gallu darparu gwybodaeth leol.

Bocs Argyfwng

Dylai cymunedau baratoi a chynnal bocs argyfwng. Mae’ n bwysig bod y bocs yn cael ei gadw mewn adeilad diogel y gallai aelod priodol o’ r gymuned gael mynediad iddo yn ystod digwyddiad. Isod mae rheoliad a chynnwys eich bocs argyfwng cymunedol:

Lleoliad

Cyfeiriad	Manylion Cyswllt

Cynnwys

Eitemau:

Rhestr Wirio (ticiwch)

Copi diweddaraf o’r cynllun hwn	
Festiau ‘Hi-Viz’	
Pecyn Cymorth Cyntaf	
Map o’r Ardal	
Mapiau cymuned A0	
Copiau o ffurflenni syml <ul style="list-style-type: none"> Cofnod Digwyddiad Ffurflen Gofrestru Ffurflen Wirfoddoli 	
Fflachlamp (weindio/ batri + a batris sbâr os oes angen)	
Radio (weindio/ batri + a batris sbâr os oes angen)	

Copi diweddaraf o'r Tudalennau Melyn a/neu unrhyw Gyfeirlyfr Lleol perthnasol arall	
Arall (nodwch os gwelwch yn dda)	

Proffil Cymunedol

Map o'r Ardal sy'n dod o dan y Cynllun Argyfwng Cymunedol hwn

Poblogaeth

Poblogaeth Breswyl	Cyfanswm:
Uchafswm Poblogaeth Dwristiaid	

Llwybrau Mynediad Allweddol Cymunedol (gan gynnwys prif bontydd)

- #####

Prif Afonydd o fewn yr ardal

- #####

Nentydd o fewn yr ardal

- #####

Rhwydweithiau Ffôn Symudol sydd ar gael yn y Gymuned

Isod mae rhestr o'r gwahanol rwydweithiau ffôn symudol sydd ar gael o fewn eich cymuned

Rhwydwaith	Gwasanaeth (Da, Canolig, Gwael)	Mannau Du
O2		
Vodafone		
EE		
Three		
Arall:		

Radio lleol

Bydd y radio lleol yn cyfathrebu cyngor cyhoeddus perthnasol felly mae' n bwysig GWRANDO!

Gorsaf	Amledd
BBC Radio Wales	93.9 - 95.9, 103.7, 103.9FM
Radio Cymru	92.4 - 94.6, 96.8, 103.5 - 104.9FM
Heart FM	105.7, 107.2FM
Capital Cymru	103.0FM
Capital North West and Wales	96.3, 97.1, 103.4FM
Arall:	

Dulliau ar gyfer Rhybuddio a Hysbysu eich Cymuned

Isod mae' r dulliau ar gyfer dosbarthu gwybodaeth o fewn eich cymuned

Dull	Person / cyswllt â chyfrifoldeb
Twitter	
Facebook	
Gwefan	
Hysbysfyrdau	
Arall:	

Cysylltiadau Cymunedau Cyfagos

Isod mae manylion cyswllt cymunedau cyfagos a allai ddarparu cymorth yn ystod argyfwng:

Cyngor Cymuned / Tref	Unigolyn Cyswllt	Dull Cysylltu a Ffafir	Cynllun Argyfwng Cymunedol? (Oes neu Nac oes)

Adnoddau Cymunedol

Adnoddau Lleol

Isod mae rhestr o offer ac adnoddau y gellid eu defnyddio yn ystod argyfwng. Gallai rhai o' r offer olygu bod angen sgiliau/ hyfforddiant arbenigol a defnyddio offer diogelwch priodol.

Offer / Adnoddau	Lleoliad	Rhif Cyswllt	Gwybodaeth Ychwanegol

Gwirfoddolwyr mewn Argyfwng

Isod mae’ r unigolion sy’ n fodlon gwirfoddoli eu gwybodaeth arbenigol o sgiliau ymarferol ac amser yn ystod argyfwng. Mae’ n hynod bwysig bod gwirfoddolwyr yn deall yn ystod argyfwng y dylent:-

- Beidio rhoi eu hunain neu eraill mewn perygl
- Asesu’ r risg cyn ymgymryd ag unrhyw weithgaredd
- Sicrhau bod eu manylion cyswllt yn gyfoes.
- Bod yn barod i weithredu’ n gyflym

Enw	Rôl/ Sgiliau Arbenigol Gwirfoddolwyr	Manylion Cyswllt (E-bost/Ffôn)

Sefydliadau Bregus

Mae' r adran hon yn rhestru sefydliadau a allai fod yn hynod fregus i argyfyngau megis cartrefi gofal, ysgolion, meysydd carafannau ac ati.

Sefydliad	Cyfeiriad	Manylion Cyswllt

Unigolion Bregus

Mae' r adran hon yn rhestru unigolion a allai fod yn hynod fregus mewn argyfwng.

Enw	Cyfeiriad	Gwybodaeth Ychwanegol	Manylion Cyswllt

Risgiau i'r Gymuned

Perygl

Mesurau lliniaru i leihau'r effaith

Llifogydd	
Colli nwy yn rhannol neu'n gyfan gwbl	
Colli trydan yn rhannol neu'n gyfan gwbl	
Colli dŵr yn rhannol neu'n gyfan gwbl	
Colli llinell ffôn yn rhannol neu'n gyfan gwbl	
Tywydd garw	
Ffliw Pandemig	
Tân Mawr	
Colli mynediad ffordd	

Perygl

Mesurau lliniaru i leihau'r effaith

Canolfan Orffwys

Mae’ r adeiladau canlynol wedi cael eu clustnodi fel Canolfan Orffwys priodol mewn argyfwng ac fel arfer bydd yn cael ei redeg gan yr Awdurdod Lleol. Gall trigolion gael eu symud i’ r adeiladau hyn oni bai eu bod wedi gwneud trefniadau amgen trwy aros gyda ffrindiau neu berthnasau.

Canolfan Orffwys a Nodwyd gan yr Awdurdod Lleol

Enw	Cyfeiriad

Mewn rhai achosion, ni fydd canolfan orffwys wedi cael ei nodi gan yr Awdurdod Lleol yn eich cymuned. Mewn amgylchiadau o’ r fath, bydd angen i chi, mewn cyd-weithrediad â’ r Awdurdod Lleol, ddod o hyd i adeilad y gellid ei ddefnyddio fel canolfan orffwys i drigolion sydd wedi gorfod gadael eu cartrefi.

Gallai hefyd fod achlysuron pan na fydd staff yr Awdurdod Lleol yn gallu cyrraedd y ganolfan oherwydd y digwyddiad neu dywydd gwael yn atal teithio.

Drwy ddynodi canolfan rydych yn darparu gwasanaeth a fydd yn lleihau gofid pobl sydd wedi’ u symud o’ u hamgylchedd arferol oherwydd perygl difrifol.

Sylwer: Yn dibynnu ar natur yr argyfwng, efallai bydd faciws yn cael eu cludo i safle amgen tymor hir, neu y deuir o hyd i lety arall iddynt ar gyfer hyd cychwynnol yr argyfwng.

Eiddo

Adeilad:	
Cyfeiriad:	Rhifau cyswllt Rhif Ffôn: Rhif Ffacs:
Cyfeirnod Grid:	

Cyfleusterau

Cynhwysedd Amcangyfrifedig:
Math o Wres:
Coginio:
Toiled:
Golchi:
Parcio:
Arall: (Nodwch)

Deiliaid Allweddi

Prif Ddeilydd Allweddi	Deilydd Allweddi Amgen
------------------------	------------------------

Rhestr Wirio Canolfan Orffwys

Rhif	Ystyriaethau a Awgrymir	Rhestr Wirio (ticiwch)	Sylwadau/Camau
Ystyriaethau cychwynnol			
1	Casglu Bocs Argyfwng os nad yw wedi' i leoli yn y ganolfan		
2	Agor llyfr log i gofnodi digwyddiadau, gweithredoedd a phenderfyniadau, ymgysylltu rhywun i gymryd nodiadau os yn bosibl		
3	Enwebu pwy sy' n mynd i fod yn gyfrifol am y Ganolfan Orffwys (GO)		
4	Ystyried yr adnoddau sydd eu hangen i reoli nifer y bobl a fydd wedi eu hadleoli o bosibl		
5	Archwiliwch yr adeilad er mwyn sicrhau ei fod yn dal i fod yn addas i' r diben e.e. pwêr, gwresogi, strwythur ac ati		
6	Sefydlu cysylltiad â' r Heddlu / Awdurdod Lleol yn ôl yr angen - cael rhif log / digwyddiad		
Sefydlu'r Ganolfan			
7	Defnyddiwch y cynllun hwn a chynnwys y Bocs Argyfwng i drefnu		
8	Briffio staff a sefydlu sesiynau briffio rheolaidd		
9	Sicrhau bod pob aelod o staff â modd adnabod (e.e. tabard a bathodyn adnabod)		
10	Dyrannu rolau / meysydd penodol o gyfrifoldeb i staff		
11	Dynodi goruchwyliwr ar gyfer pob ardal		
12	Trefnu gweithio sifftiau cyn gynted ag y bo modd		
13	Sicrhau bod yr holl staff a gwirfoddolwyr yn cael seibiannau priodol, gorffwys a lluniaeth i ffwrdd o' r prif feysydd		
14	Sicrhau bod pawb sy' n mynd i' r GO wedi ei gofrestru, Enw. oed, rhyw, cyfeiriad cartref, o ble maent wedi eu symud (os yw' n wahanol) a chyrchfan (os yn hysbys)		
15	Sicrhau bod pobl sydd wedi' u hadleoli yn cael eu cymryd y tu mewn ar unwaith, yn gallu eistedd i lawr a chael diod (poeth)		
16	Peidiwch â cheisio cofrestru pobl sydd ag anghenion mwy amlwg a brys		
17	Peidiwch â dal gafael ar bobl sydd wedi eu hadleoli fwy nag sv' n hollol anghenrheidiol		
18	Peidiwch â gadael i blant neu anifeiliaid anwes i gadw reiat. Dyrannwch adrannau adloniant dan oruchwyliaeth ar gyfer y plant, a lle aros ar wahân ar gyfer anifeiliaid anwes		

Cofiwch gall Faciwîs fod yn flinedig, yn wlyb, yn ofidus, yn sâl, llwglyd neu mewn sioc. Gall hyn achosi iddynt arddangos ymddygiad annormal, e.e. bod yn ymosodol.

Nodwch yn gyflym unrhyw un ag anghenion arbennig a delio â'r rheiny ar unwaith; lles meddygol, anabledd, oed, mamau sy' n bwydo - unrhyw un sydd angen unrhyw fath o gymorth ychwanegol am unrhyw reswm.

Cadwch lygad am symptomau sioc ohiriedig neu straen difrifol.

Rhowch y newyddion diweddaraf i bawb yn aml ac yn rheolaidd o ran yr hyn nad yw' n gyfrinachol, ac sydd wedi' i gymeradwyo.

Dylech drin pawb fel unigolyn gyda gwahanol hawliau, agweddau ac anghenion.

Manylion cyswllt/ Sefydliadau defnyddiol

Sefydliad	Rôl	Rhif Cyswllt
Awdurdodau Lleol		
Adrannau'r Llywodraeth		
Gwasanaethau		
Mudiadau Gwirfoddol		
Rhifau/ Gwefannau Defnyddiol Eraill		

Rhestr Wirio Camau Brys

Cam Gweithredu		Wedi'i gwblhau
1.	Lle mae argyfwng yn bosibl neu wedi' i rhagweld, monitwrch y sefyllfa a rhybuddio aelodau o' r TYC a' r gymuned fel y bo' n briodol. Byddwch yn barod i weithredu' n gyflym.	
2.	Deialwch 999 a sicrhau bod y gwasanaethau brys yn ymwybodol o' r argyfwng a dilyn unrhyw gynqor a roddir.	
3.	Cysylltwch a hysbyswch Awdurdod Lleol #####.	
4.	Dechreuwch gofnodi manylion ar y Daflen Log, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • Unrhyw benderfyniadau rydych wedi' u gwneud a pham • Camau a gymerwyd • Gyda phwy a siaradoch a beth a ddywedoch. (gan gynnwys rhifau cyswllt) • Unrhyw wybodaeth a gafwyd 	
5.	<ul style="list-style-type: none"> • Cysylltu ag aelodau eraill y Tîm Ymateb Cymunedol ac aelodau o' r gymuned y mae angen eu rhybuddio trwy y dull y cytunwyd arno • Aelwydydd yr effeithir arnynt • Y Cyngor Tref a Chymuned trwy gyfrwng y Clerc Tref neu Gymuned • Gwirfoddolwyr a deiliaid allweddi fel y bo' n briodol 	
6.	Os oes angen, galwch gyfarfod cymuned, ond sicrhewch fod y lleoliad yn ddiogel ac y gall pobl gyrraedd yno yn ddiogel.	
7.	Gwnewch yn sicr eich bod yn cymryd nodiadau ac yn cofnodi' r camau gweithredu o' r cyfarfod. Os gwneir penderfyniad i ddechrau CAC cofiwch ddilyn y daflen wirio priodol.	
8.	Ar ôl i' r gwasanaethau brys gyrraedd, dylai' r Arweinydd Tîm Ymateb Cymunedol gyflwyno ei hun iddynt.	

NI DDYLECH, DAN UNRHYW AMGYLCHIADAU, ROI EICH HUN NEU ERAILL MEWN PERYGL WRTH GEISIO CYFLAWNI'R TASGAU HYN.

Rhaglen Cyfarfod Cyntaf y Tîm Ymateb Cymunedol

Rhaglen Tîm Ymateb Cymunedol

Croeso a Chyflwyniad	
Trosolwg o'r digwyddiad hyd yma	
Gweithredu'r Cynllun	
Pobl Bregus	
Camau Gweithredu	
Gwirfoddolwyr	
Nawdd/ Ariannu	
Gwasanaethau Brys	
Unrhyw Fater Arall	

Taflen Gofnod

Dyddiad	Amser	Gwybodaeth/Penderfyniad/Gweithredu	Blaenlythrennau

Ffurflen Frîffio Wedi' r Digwyddiad

Manylion Personol

Enw:	Swydd:
------	--------

Rôl ar y diwrnod

Ym mha ffordd oeddech chi'n rhan?

Pa agweddau o'r ymgyrch o'ch safbwynt chi nad aeth yn dda ac sydd angen ei datblygu ymhellach?	Pa agweddau o'r digwyddiad o safbwynt chi aeth yn dda a dylid ei amlygu fel arfer da ar gyfer achosion o'r fath yn y dyfodol?
--	---

Pa agweddau o safbwynt y Cynllun Cymunedol nad aeth yn dda ac sydd angen ei datblygu ymhellach?

Pa agweddau o safbwynt y Cynllun Cymunedol aeth yn dda a dylid ei amlygu fel arfer da ar gyfer achosion o'r fath yn y dyfodol?

Rhestrwch Ddiwygiadau i'r Cynllun yma:-

Unrhyw sylwadau eraill:

